**Cofnodion Cyfarfod Agoriadol y Grŵp Trawsbleidiol ar Les Anifeiliaid**

**Dyddiad: 31 Mawrth 2022**

**Lleoliad: Drwy Zoom**

**Yn bresennol:**

- Carolyn Thomas AS
- Jane Dodds AS
- Luke Fletcher AS
- Mike Hedges AS
- Dan Rose – Staff Carolyn Thomas AS
- Robin Lewis – Staff Vikki Howells AS
- Andrew Bettridge – Staff John Griffiths AS
- Will Morton – League Against Cruel Sports
- Andy Knott MBE – League Against Cruel Sports
- Martin Sims – League Against Cruel Sports
- Bethan Sayed – Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru
- Billie-Jade Thomas – RSPCA Cymru
- Emma Slawinski – RSPCA
- Fiona Pereira – Animal Aid
- Jessamy Korotoga – Animal Aid
- Scott Fryer – Battersea
- Madison Rogers – Cats Protection
- Ed Hayes – The Kennel Club
- Holly Conway – The Kennel Club
- Hannah Evans – Dogs Trust
- Teresa Amory – Ysbyty Adar Gŵyr
- Rachel Sharp - Ymddiriedolaeth Natur Cymru
- Vanessa Waddon - Hope Rescue
- Katie Harrison – League Against Cruel Sports
- Jac Freeman – League Against Cruel Sports
- Malcom Eames – Achub Milgwn Cymru
- Mal Ingham – Tyst arbenigol

**Crynodeb o'r cyfarfod**

**Agenda, nodiadau a chamau gweithredu**

**1. Croeso a chyflwyniadau**

Agorodd CT y cyfarfod drwy gyflwyno ei hun a'i staff, gan fynegi ei bod yn bleser cael ffurfio'r grŵp. Mae lefel y presenoldeb yn dangos pwysigrwydd lles anifeiliaid a'r cyfle i wneud pethau'n wahanol yng Nghymru er budd anifeiliaid, gyda'r grŵp yn gallu gweithredu fel esiampl ar gyfer lles anifeiliaid.

**2. Ymddiheuriadau:**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Llyr Gruffydd AS
Peredur Owen Griffiths AS
Buffy Williams AS
Jayne Bryant AS

Mabon ap Gwynfor AS

**3. Penodi swyddogion**

Gwahoddodd Carolyn Thomas AS (CT) y mynychwyr i gytuno y byddai WM yn gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth. Cytunwyd ar hyn, heb unrhyw wrthwynebiad.

Penodwyd CT yn Gadeirydd, yn sgil enwebiad gan Mike Hedges AS (MH) ac eiliwyd hyn gan Jane Dodds AS (JD).

Nododd CT faterion o ran lles anifeiliaid sydd ar yr agenda yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys gwahardd maglau a thrapiau glud, rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid, gwaharddiad ar werthu cŵn bach trydydd parti, a'r adolygiad annibynnol sydd ar ddod o blismona hela gyda chŵn yng ngogledd Cymru. Efallai yr edrychir ar rasio milgwn, gyda siaradwr i'w wahodd i annerch y grŵp, yn ogystal â'r Saith Egwyddor ar gyfer Rheoli Bywyd Gwyllt yn Foesegol sy'n cael eu trafod yn yr Alban, erledigaeth adar ysglyfaethus, a dympio adar hela.

**4. Cylch gorchwyl**

Amlinellodd CT gylch gorchwyl posibl fel a ganlyn:

- Amlygu materion, gwaith ymchwil neu arbenigedd ar les anifeiliaid yng Nghymru a'i fanteision
- Hwyluso partneriaeth a chydweithredu ym maes lles anifeiliaid yng Nghymru
- Darparu fforwm cryno ac awdurdodol i alluogi Aelodau o'r Senedd i ddysgu am y materion o bwys
- Darparu fforwm agored i'r Aelodau drafod materion ac archwilio gwaith cydweithredu
- Bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn cyfarfod bob chwarter. Rhennir gweinyddiaeth y grŵp rhwng swyddfa Carolyn Thomas AS a'r League Against Cruel Sports.

a gwahoddwyd unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau, ac ni chafwyd yr un. Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ddosbarthu'n ysgrifenedig cyn y cyfarfod nesaf, gan ganiatáu iddo gael ei ddiweddaru ar sail sylwadau pellach.

Yn dilyn hynny, awgrymodd Malcom Eames (ME) y gellid ychwanegu at y cylch gorchwyl arfaethedig i fynegi'r cyfle i Gymru osod yr agenda ar les anifeiliaid.

**5. Sgwrs gan Martin Sims, Cyfarwyddwr Ymchwiliadau yn y League Against Cruel Sports**

Rhoddodd Martin Sims (MS) gyflwyniad ar *Effaith y Diwydiant Saethu ar Les Anifeiliaid yng Nghymru*.

Cyflwynodd ei hun fel cyfarwyddwr ymchwiliadau yn y League Against Cruel Sports a'i rôl flaenorol fel Pennaeth yr Uned Genedlaethol ar Droseddau Bywyd Gwyllt.

Gan amlygu maint y diwydiant bridio adar hela yng Nghymru, dangosodd awyrluniau o resi o gewyll dodwy wedi'u codi ar fferm helwriaeth Neuadd Betws ym Mhowys, a delweddau o fferm helwriaeth yn Swydd Amwythig sy'n darparu digwyddiadau saethu yng Nghymru a Lloegr. Cynhyrchir ar raddfa ddiwydiannol, gydag MS yn gofyn a yw cewyll yn rhoi'r Pum Rhyddid i anifeiliaid, megis arddangos ymddygiad naturiol.

Wrth ddisgrifio effaith bridio dwys ar les anifeiliaid, dangosodd MS ddelweddau o ymchwiliad ar ystâd saethu yng Nghymru yn 2021. Daeth ymchwilwyr y gynghrair o hyd i adar hela wedi'u rhyddhau â dangosyddion Aspergillosis, clefyd anadlol ffwngaidd, gyda'u gyddfau hir ac yn dyheu am wynt.

Daethpwyd o hyd i adar marw a rhai oedd yn marw, rhai wythnosau oed ac yn gwasanaethu fel celain i adar gwyllt. Canfuwyd hefyd bod carcasau ffesantod wedi'u gadael mewn cynhwysydd, y credir ei fod yno i ddenu llwynogod i gael eu saethu. Yn bryderus bod marwolaeth yr adar yn gysylltiedig â chlefyd o

ganlyniad i amodau cyfyng eu cynhyrchu, casglwyd chwe aderyn marw ar gyfer post mortem, gyda'r achos marwolaeth yn cael ei nodi fel Aspergillosis ar gyfer un o'r adar hynny.

Gan dynnu sylw at y cysylltiad rhwng saethu a maglu, cyflwynodd MS hefyd ganfyddiadau ymchwiliad i ail ystâd saethu yng Nghymru yn 2021. Roedd y delweddau'n cynnwys maglau nad oeddent yn cydymffurfio â'r *Cod arfer gorau ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod* mewn sawl ffordd ac sydd mewn perygl o ddod yn hunan-gloi drwy gyrydiad a chaniatáu i lwynogod dorri i ffwrdd gyda magl am eu gwddf o hyd. Canfuwyd 'pwll drewdod', lle'r oedd carcasau llwynogod yn cael eu pentyrru i ddenu ysglyfaethwyr i gael eu dal â maglau. Crëwyd llwybrau cerdded naturiol yn y glaswellt o amgylch i ganiatáu i lwynogod basio trwodd, gyda maglau wedi'u gosod ar ymylon y pwll drewdod.

Ailymwelodd ymchwilwyr â'r safle yn 2022, i'w weld yn fwy pydredig a phetris wedi'u hychwanegu at y pwll. Darganfuwyd a ffilmiwyd pwll drewdod arall, a gwelwyd maglau nad oeddent yn cydymffurfio â'r cod, gan nad oedd ganddynt fecanwaith troi dwbl. Dangosodd ffilm camera nad oeddent wedi'u gwirio gyda'r amlder sy'n ofynnol gan y cod. Pe bai ysglyfaethwr wedi'i ddal mewn magl, gallai fod wedi bod yn ddyddiau cyn iddo gael ei ddarganfod.

Dangoswyd delweddau o ymchwiliad a gynhaliwyd ar ystâd Rhaeadr Dyfi, lle cafodd adar hela eu ffilmio yn cael eu dympio mewn siafft pwll glo, gan arwain at ofn halogi cwrs dŵr. Credwyd bod tua 40 o adar wedi cael eu gadael yn siafft y pwll glo, gyda'r stori wedi'i chynnwys yn y Western Mail a'r achos ers hynny wedi'i ymchwilio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Diolchodd CT i MS am yr hyn a ddisgrifiodd fel cyflwyniad brawychus ac addysgiadol.

Eglurodd JD ei bod yn awyddus i ddysgu mwy am y mater o fridio adar hela yn ddwys, y fframwaith rheoleiddio presennol a'r hyn y gellir ei wneud i symud y mater yn ei flaen. Bydd cefnogaeth drawsbleidiol yn bwysig.

Gofynnodd CT am ddosbarthu papur briffio ar y mater.

Cytunodd Will Morton (WM) i weithio ar bapur briffio, gan nodi hefyd bod cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaed gan y Gynghrair i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn nodi bod 90,000 o adar yn cael eu cadw mewn cewyll ar gyfer bridio ar un safle ym Mhowys.

Gofynnodd JD i bapur briffio gynnwys gwybodaeth am economeg y diwydiant.

Tynnodd Fiona Pereira (FP) sylw at waith ymchwiliol Animal Aid dros nifer o flynyddoedd yn Neuadd Betws a ffermydd helwriaeth eraill. Dim ond dau archwiliad a gynhaliwyd o ffermydd helwriaeth yng Nghymru yn 2018 a disgwylir bod mwyafrif yr archwiliadau yn deillio o gwynion gan Animal Aid a'r Gynghrair. Dywedodd FP y canfuwyd achosion mynych o dorri'r Cod Ymarfer er Lles Adar Hela sy'n cael eu Magu at Ddibenion Chwaraeon, megis cewyll hesb a diffyg cyfoethogiad, yn ogystal ag anafiadau a cholli plu. Gellir gweld lluniau o'r amodau a ddioddefodd adar hela lled-wyllt yn y cewyll ar wefan Ban Game Bird Cages.

Dywedodd CT ei bod yn bwysig tynnu sylw pobl at yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd a bod dwy ochr i'r stori, gan y caiff ei bortreadu'n aml fod saethu yn helpu gyda chadwraeth a'r economi.

Dywedodd MS fod argaeledd maglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer maglu, ynghyd â'u cost is, yn cael ei gydnabod gan y diwydiant fel rhwystr i'r rhai sy'n cydymffurfio â'r cod. Nid yw'r alwad am dystiolaeth ar faglau a addawyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi digwydd ychwaith.

## 6. Trafodaeth ar flaenoriaethau

Cyflwynodd Bethan Sayed (BS) ei hun fel Cadeirydd Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru (CAWGW). Blaenoriaethau'r Grŵp yw canolfannau achub ac ailgartrefu, gosod microsglodion, gorfodi, bridio cathod a gofal milfeddygol cost isel. Mae'n gobeithio am gylch gorchwyl eang, siaradwyr ar ystod o bynciau gwahanol a gwaith ymchwil manwl ar faterion â blaenoriaeth.

Diolchodd CT i BS a dywedodd y byddai ei sylwadau'n cael eu nodi.

Awgrymodd Dan Rose (DR) y byddai siaradwyr ar bynciau amrywiol a'r gobaith yw y bydd y rhan fwyaf o'r sefydliadau yn y grŵp yn gallu cynnig pynciau.

Ychwanegodd BS y bydd yn bwysig cael amgylchedd diogel lle mae pobl yn teimlo'n rhydd i rannu mewn ffordd ymddiriedus er mwyn galluogi ymgysylltiad trawsbleidiol.

Cyflwynodd Mal Ingham ei hun fel cyn-Brif Geidwad Bywyd Gwyllt sydd wedi gweithio ochr yn ochr â'r heddlu, yr RSPCA a'r Uned Genedlaethol ar Droseddau Bywyd Gwyllt. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ochr yn ochr â Thîm Troseddau Gwledig Gogledd Cymru ac mae'n dyst arbenigol erlyniad mewn achosion o gloddio a baetio moch daear. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda hyfforddi swyddogion yr heddlu mewn perthynas ag achosion o gloddio a baetio moch daear, ac yn monitro moch daear, dyfrgwn a rhywogaethau eraill o fywyd gwyllt.

Dywedodd Billie-Jade Thomas (BJT), sy'n cynrychioli RSPCA Cymru, fod ymdeimlad anifeiliaid yn fater sy'n cysylltu'r holl grwpiau sy'n bresennol. Mae'n ansicr o hyd sut i graffu ar bolisi Cymru, a gallai hyn fod yn flaenoriaeth i'r grŵp sy'n uno pawb. Mae blaenoriaethau eraill yr RSPCA yn cynnwys rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid, sicrhau cymorth i ffermwyr sy'n cadw at safonau lles uwch, mynd i'r afael â thocio clustiau cŵn a sicrhau mwy o gymorth i berchnogion anifeiliaid anwes sy'n rhentu.

Amlygodd Kate Parker (KP), sy'n cynrychioli'r Naturewatch Foundation, ran ei sefydliad mewn ymgyrchoedd ac ymchwiliadau ar faterion fel cloddio moch daear a hela ysgyfarnogod. Dywedodd KP ei bod yn wych bod yn rhan o weithgor rhagweithiol.

Adleisiodd Emma Slawinski (ES) sylwadau BJT a chytunodd y gallai ymdeimlad anifeiliaid fod yn flaenoriaeth, yn ogystal â'r Saith Egwyddor ar gyfer Rheoli Bywyd Gwyllt yn Foesegol a rasio milgwn. Mae'r RSCPA yn falch iawn o weld y grŵp yn cael ei sefydlu, sy'n gam pwysig ymlaen.

Cyflwynodd Andy Knott (AK) ei hun fel Prif Weithredwr y Gynghrair a thynnodd sylw at bŵer cydweithredu a'r hyn y gall ei gyflawni. Mae'r Gynghrair yn gweithio ar faterion gan gynnwys rasio milgwn, ymladd cŵn, baetio moch daear a hela llwynogod. Fodd bynnag, o ystyried maint y broblem o ran maglu a bridio mewn cewyll, byddai'n wych i'r grŵp wneud gwahaniaeth ar y ddau fater hyn.

Cyflwynodd ME ei hun o Achub Milgwn Cymru a diolchodd am sefydlu'r grŵp. Mae'n gobeithio y bydd rasio milgwn yn cael ei nodi fel blaenoriaeth uniongyrchol y grŵp i wthio am waharddiad, yn enwedig gyda'r rhagolygon y bydd lefel y rasio ar unig drac Cymru yn ehangu. Mae Achub Milgwn Cymru bellach yn cefnogi gwaharddiad ar rasio milgwn, yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig diweddar lle pleidleisiodd ei aelodau o blaid y polisi. Mae gan Gymru gyfle i osod yr agenda ar les anifeiliaid, y gellid ei gynnwys yng nghylch gorchwyl y grŵp.

Cytunodd CT y dylai rasio milgwn fod yn flaenoriaeth oherwydd y posibilrwydd o ehangu.

Nododd Madison Rogers (MR) aelodaeth Cats Protection o Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru. Eglurodd y gall cathod hefyd ddioddef maglau, a thynnodd sylw at flaenoriaethau eraill Cats Protection a Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru fel rhai sy'n cynnwys rheoleiddio canolfannau achub ac ailgartrefu, gosod microsglodion, gorfodi bridio cŵn a bridio cathod. Byddent wrth eu bodd pe bai'r grŵp yn cynnwys amrywiaeth o faterion lles anifeiliaid anwes yn y rhai y mae'n eu hystyried a byddent yn awyddus i gyfrannu lle y gallant.

Cyflwynodd Vanessa Waddon (VW) ei hun o Hope Rescue a thynnodd sylw at flaenoriaethau'r sefydliad, sy'n cynnwys rasio milgwn a sefydliadau lles anifeiliaid. Dylid ehangu'r ystyriaeth o werthiannau trydydd parti hefyd i gynnwys rheoliadau bridio, gan helpu i nodi bylchau sy'n bodoli megis clinigau ffrwythlondeb cŵn. Mae Hope Rescue hefyd yn gweithio'n agos gyda swyddogion gorfodi a thrwyddedu awdurdodau lleol, a hoffai i oblygiadau ymarferol cyfreithiau gael eu hystyried, megis yr amser rhwng atafaelu cŵn a llofnodi i gael eu hailgartrefu. Bydd cael mannau achub addas i fynd â chŵn yn dod yn broblem gynyddol wrth i brosiectau gorfodi gael eu cyflwyno. Gofynnodd hefyd am wahodd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) i'r grŵp.

Cytunodd DR y byddai Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru yn cael ei ychwanegu at y rhestr o wahoddedigion os nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes.

Dywedodd MH fod hynny wedi gwneud i’r Prif Weinidog gytuno i gynnwys gwaharddiad ar faglau ym maniffesto’r Blaid Lafur, ac y byddai’n cael ei gynnwys yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) sydd ar fin digwydd. Mae'n bwysig i bawb gefnogi gwahardd maglau. Mae maglau, sy'n trapio anifeiliaid ar hap ac yn achosi marwolaeth araf a hirhoedlog iddynt, yn anghywir a rhaid unioni hynny.

Cyflwynodd Scott Fryer (SF) ei hun fel Uwch-gynghorydd Polisi ac arweinydd Cymru ar gyfer Battersea, sydd hefyd yn eistedd ar Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru a Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru. Blaenoriaeth allweddol i Battersea yw rheoleiddio canolfannau achub ac ailgartrefu a gwarchodfeydd, fel bwlch posibl yn y gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti. Dylid gwella microsglodion ar gyfer cŵn, ac mae angen gwneud y broses o ficrosglodynnu cathod yn orfodol. Mae angen gwelliant difrifol ar fridio cŵn ac mae angen gwneud rheoleiddio bridio cathod yn orfodol, gyda materion gorfodi cysylltiedig angen sylw.

Mynegodd Jessamy Korotoga (JK), yn cynrychioli Animal Aid, ddiolch am fenter gadarnhaol y grŵp, ac ychwanegodd y byddai Animal Aid hefyd yn hoffi ystyried ffermydd ieir dwys a gweithredu teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai.

Gwahoddodd CT unrhyw un nad oedd efallai wedi gallu siarad yn ystod y cyfarfod i e-bostio WM neu DR, a all gasglu awgrymiadau pellach ar gyfer blaenoriaethau. Efallai y bydd angen i’r grŵp gyfarfod yn amlach na bob chwarter os yn bosibl. Mae materion brys yn cynnwys y posibilrwydd o ehangu rasio milgwn, yn ogystal â bridio adar hela mewn cewyll y byddai’n ddefnyddiol coladu gwybodaeth yn ei gylch a chyflwyno’r wybodaeth i ddadl bosibl yn y Senedd.

### 7. Unrhyw fater arall

Ni chyflwynwyd unrhyw fusnes arall.

### 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Diolchodd CT i bawb a oedd yn bresennol am gyfarfod diddorol ac addysgiadol. Yn y dyfodol, gall y grŵp gydweithio a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Bydd rhestr o'r blaenoriaethau a godwyd yn cael ei chynnwys mewn neges e-bost, ynghyd â'r cylch gorchwyl arfaethedig fel y gellir cytuno arno yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd WM fod y Gynghrair yn edrych ymlaen at helpu i hwyluso gwaith y grŵp ar ystod eang o faterion pwysig er budd gwella lles anifeiliaid yng Nghymru gyfan, gan nodi manteision cydweithio ar draws y sector.

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben.

**Camau i’w cymryd**

- WM i ddosbarthu cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru i'w ystyried ymhellach a chael sylwadau arno, i'w gytuno yn y cyfarfod nesaf.

- WM i lunio papur briffio ar fridio adar hela mewn cewyll.

- WM i ddosbarthu rhestr o flaenoriaethau a awgrymwyd i'r grŵp, gyda DR a WM i goladu awgrymiadau pellach.

- WM i wahodd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru i gyfarfodydd yn y dyfodol.